# Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

## Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2018–2023

**Diweddarwyd Mehefin 2021**



‘Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Rhagarweiniad** | **3** |
| | **Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin** | |
| Dechrau'n Dda | 1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd. | **8** |
| | 2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw | **9** |
| Byw'n Dda | 3. Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniadau a deilliannau'r holl ddysgwyr | **10** |
| | 4. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | **12** |
| | 5. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | **13** |
| | 6. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | **15** |
| | 7. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) | **16** |
| | 8. Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch | **17** |
| Heneid dio'n Dda | 9. Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny | **19** |
| Mewn Amgylchedd Iach, Diogel | 10. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | **22** |
| | 11. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | **23** |
| | 12. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru | **24** |
| Llywodraethu Corfforaethol | 13. Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well | **26** |
| | **Atodiadau** | **28-37** |


## Y Newyddion Diweddaraf yn Gryno....

1. Cyhoeddwyd diweddariad gennym ddiwethaf ym mis Mehefin 2019
2. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol gennym ar 2019/20 ym mis Hydref 2020
3. Cyhoeddwyd Asesiad o Effaith Gymunedol COVID-19 ym mis Medi 2020 ac mae hyn wedi llywio beth rydym yn ei wneud
4. Rydym wedi adolygu'r Amcanion Llesiant ac wedi ymgynghori yn eu cylch fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb
5. Rydym wedi cyfuno rhai Amcanion Llesiant ac wedi addasu enwau rhai - *Atodiad 1*

# Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynodd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin ei ddyheadau allweddol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf – *'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf'*.

Yn sgil hyn, cyhoeddodd y Cyngor Strategaeth Gorfforaethol a oedd yn cadarnhau ac yn alinio ein cynlluniau, ac rydym wedi diweddaru'r strategaeth hon yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddogfen hon bellach wedi cael ei diweddaru, ac ym mis Gorffennaf 2019 y gwnaed hynny'n flaenorol. Mae'n bwysig diweddaru ein cynlluniau ac mae'n ofyniad statudol.

# Heriau Pellach sy'n wynebu'r Cyngor

Mae effaith COVID-19, ansicrwydd yn sgil Brexit, a newid hinsawdd i gyd yn heriau nad ydym wedi eu hwynebu o'r blaen, yn ogystal â heriau eraill. Rhaid i'n cynlluniau strategol ystyried yr heriau sy'n ein hwynebu, y mae'r rhan fwyaf ohonynt o achos ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Fodd bynnag, maent yn ffactorau y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth i ni ddatblygu, ac, mewn rhai achosion, newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud pethau. Isod ceir amlinelliad o'r prif heriau.

1. Effaith pandemig y Coronafeirws a'r gwaith adfer
2. Datblygu economi ddeinamig yng nghyd-destun Brexit
3. Mynd i'r Afael ag Argyfwng Hinsawdd
4. Gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)
5. Galw a chymhlethdod cynyddol ar gyfer gwasanaethau
6. Disgwyliadau cynyddol o'r ddarpariaeth gan reoli cyllidebau sy'n lleihau ar yr un pryd
7. Hinsawdd economaidd heriol a chefnogaeth i'r economi leol
8. Cynyddu'r angen i gryfhau seilwaith digidol ac i gefnogi cynhwysiant digidol ar gyfer unigolion yn ogystal â sefydliadau cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat, gyda'r nod o ddatblygu ffyniant economaidd.
9. Deall ein ffyrdd o weithio a sut mae disgwyliadau cwsmeriaid wedi newid
10. Newid proffil demograffig y sir ac yn enwedig ei phoblogaeth sy'n heneiddio
11. Risgiau cynyddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed
12. Amddifadedd a thlodi cynyddol a mwy o anghyfartaledd rhwng cymunedau
13. Mwy o ddeddfwriaeth a rheolaeth gan Lywodraeth Cymru
14. Rheoli'r risgiau i'r gweithlu sy'n gysylltiedig â chyflymder y newid sy'n ofynnol gan y sefydliad
15. Gofynion newydd o ganlyniad i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau.
16. Gall blaenoriaethau Llywodraeth Cymru newid o ganlyniad i etholiadau'r Senedd

# Effaith COVID-19


Ym mis Medi 2020 cyhoeddwyd gennym Asesiad o Effaith Gymunedol COVID-19.

Roedd y cyfnod hwn o ymateb cychwynnol yn her enfawr a daeth y sefydliad at ei gilydd mewn argyfwng i sicrhau ein bod yn helpu ein trigolion a'n cymunedau. Daeth rhinweddau gorau dynol ryw i'r amlwg, sef ymroddiad, cydwybodolrwydd, tosturi, a chreadigrwydd, a hynny er llesiant ein cymunedau. Mae'r Pandemig yn parhau ac rydym yn dal i addasu i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu. Bydd hon yn her barhaus, ac er bod cyflwyno'r brechlyn yn rhoi gobaith bellach fod diwedd yr argyfwng cenedlaethol hwn yn y golwg, bydd yr heriau a'r angen i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio yn y tymor hir yn parhau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o'r profiad hwn wrth i ni ailgyflwyno ein gwasanaethau ac ail-bennu ein blaenoriaethau strategol a gweithredol, rydym wedi bod yn nodi ein pwyntiau dysgu allweddol ar lefel sefydliadol ac ar draws ein holl wasanaethau. Mae un peth yn amlwg, ni allwn ddychwelyd i fel oedd pethau cyn COVID-19 ac ni fyddwn yn gwneud hynny. Bydd y dysgu hwn yn llunio ac yn ail-bennu ein Hamcanion Llesiant.

# Gwerthoedd Craidd y Cyngor

Wrth ddarparu'r strategaeth hon mae'n bwysig ein bod yn cynnal ein gwerthoedd craidd ym mhopeth a wnawn:-




# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi datblygu [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.]

Mae'r cynllun strategol hwn yn nodi egwyddorion ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal ag amlinellu ein hamcanion a sut rydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau a sicrhau ein bod yn rhoi ein hegwyddorion ar waith. Mae'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar:

1. Bod yn gyflogwr arweiniol
2. Mae anghenion a hawliau pobl â Nodweddion Gwarchodedig yn llywio dyluniad gwasanaethau
3. Cymunedau Diogel a Chydlynus sy’n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal
4. Gwella mynediad i’n gwasanaethau a mynediad i’n hamgylchedd.

Byddwn yn cyflawni'r amcanion hyn gan sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth lawn i'n dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i'r ***nodweddion gwarchodedig*** canlynol:

- Oed
- Hil
- Rhyw
- Anabledd
- Crefydd a chred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Ail-bennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth

# Dod â Chynlluniau ynghyd

**Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn cydgrynhoi'r gofynion a'r cynlluniau canlynol yn un ddogfen:**

1. Mae'n cynnwys ein Hamcanion Gwella, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 (Gweler *Atodiad 2*)
2. Mae'n cynnwys ein Hamcanion Gwella, yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ein Hamcanion Llesiant wedi'u gosod i sicrhau ein bod yn cyfrannu cymaint â phosibl i'r weledigaeth a rennir a'r gyfres o nodau cenedlaethol y mae pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag atynt (Gweler *Atodiad 2*)
3. Mae'n cynnwys prosiectau a rhaglenni allweddol Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin am y 5 mlynedd nesaf, fel y nodir yn *'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf’.*

# Cyflawni ein Cynlluniau

Rydym wedi nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i *gyflawni* pob amcan. Bydd y camau hyn, *a'r ffordd rydym yn gweithio*, yn cael eu hategu gan gamau gweithredu a thargedau a nodir yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaeth.

Bydd '*cynlluniau cyflawni'* pob Amcan Llesiant yn cael eu monitro a'u craffu'n chwarterol. Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd.

Rydym wedi nodi sut y byddwn yn mesur ein llwyddiant yn erbyn ein Hamcanion Llesiant *yn Atodiad 5*.

Gellir crynhoi Gweledigaeth y Cyngor fel a ganlyn.....

## ‘Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'




## Amcanion Llesiant

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

3. Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniadau a deilliannau'r holl ddysgwyr

4. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

5. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

6. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

7. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

8. Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch diogel.

9. Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny.

10. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

11. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

12. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.


13. Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

# Dechrau'n Dda



# Amcan Llesiant 1

## **Dechrau'n Dda -** Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd.
- Mae plant sy'n cael plentyndod llawn straen sydd o ansawdd gwael yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael a datblygu problemau iechyd hirdymor wrth iddynt dyfu'n oedolion.
- Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd.
- Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r effaith niweidiol y gall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn enwedig os oes sawl achos, ei chael ar lesiant ac iechyd corfforol a meddwl, perthnasoedd ag eraill, cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau ffyniant wrth dyfu'n oedolyn.
- Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i gyfraddau uchel o **Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** sy'n gysylltiedig â deilliannau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod effaith niweidiol ar iechyd a llesiant gydol oes. Mae 47 o bob 100 o oedolion yng Nghymru wedi cael o leiaf un Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod ac mae 14 wedi cael 4 neu fwy. Mae plant sy'n cael plentyndod llawn straen sydd o ansawdd gwael yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidio iechyd. *(Arolwg Cenedlaethol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru)*
- Mae plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn fwy tebygol o gael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae 8.7% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw ar aelwydydd heb waith, sy'n is na ffigwr 2017 o 10.2% ac yn is ar hyn o bryd na'r ffigwr ar gyfer Cymru (12.6%) a'r DU (10.5%).
- Ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin mae 70 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, mae 148 yn Blant sy'n Derbyn Gofal, ac mae 839 o blant yn cael gofal a chymorth*(ar 14/12/20).*

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a sicrhau eu datblygiad drwy gydol eu plentyndod cynnar.
- Mae angen i ni feithrin cydnerthedd yn erbyn profiadau niweidiol.
- Byddwn yn sicrhau bod plant ag anghenion cymhleth ac anableddau a'u teuluoedd yn cael y cymorth cywir i'w galluogi i gyfrannu cymaint â phosibl yn eu cymunedau.

### Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A.** Byddwn yn **cefnogi teuluoedd** drwy:

i. weithio gyda'n gilydd i leihau nifer y plant sy'n cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.
ii. gweithio gyda'n gilydd i leihau nifer y plant sydd angen bod yng ngofal yr Awdurdod Lleol.
iii. hyrwyddo bondio ac ymlyniad er mwyn cefnogi perthnasoedd rhiant-plentyn da a chadarnhaol.
iv. sicrhau bod rhieni a'r sawl sy'n gadael gofal yn meddu ar fwy o'r sgiliau sy'n angenrheidiol i osgoi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn amgylchedd y cartref, ac yn hybu datblygiad llesiant a chydnerthedd cymdeithasol ac emosiynol yn y plentyn.
v. clustnodi achosion posibl lle mae plant eisoes yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu'n byw mewn amgylchedd niweidiol, ac ymyrryd ynddynt.
vi. parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ymlyniad mewn ysgolion er mwyn sicrhau eu *bod yn dod yn ysgolion ymwybyddiaeth ymlyniad* a'u bod yn gallu bodloni anghenion llesiant emosiynol plant agored i niwed.

**B.** Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn ag **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** sydd wedi'u clustnodi ym mhob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael mynediad i wasanaethau cymorth integredig priodol – e.e. Seicoleg Addysg a Phlant, cymorth y Gwasanaeth Namau Synhwyraidd, cymorth Athrawon Ymgynghorol Arbenigol a Chynorthwywyr Addysgu, Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad a mynediad at gymorth i deuluoedd drwy Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd.




**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Glynog Davies**



# Amcan Llesiant 2
# Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffordd iach o fyw

## Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd cynnydd o ran tueddiadau gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'r ffigurau'n dangos mai bechgyn rhwng 2 a 15 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf.
- Roedd asesiadau gweithgarwch o ran plant ysgol gynradd yn dangos mai bod yn gorfforol egnïol oedd y ffactor pwysicaf ond un ar gyfer llesiant cadarnhaol plant 6 – 11 oed; cysylltiadau â pherthnasau a ffrindiau oedd y pwysicaf.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Mae arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.

## Pam y dylem boeni am hyn?

- Sir Gaerfyrddin sydd â'r 12fed lefel uchaf o ordewdra ymhlith plant yng Nghymru gyda 26.6% (492) o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, o 26.4%. *Rhaglen Mesur Plant Cymru 2017/18*
- Trwy ymgysylltu ag ysgolion cynradd, clustnodwyd bod cysylltiad cryf rhwng gweithgarwch corfforol a chyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored, a theimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd hwnnw.
- Mae anhwylderau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc yr un mor gyffredin, ac mae 1 ym mhob 10 plentyn a pherson ifanc rhwng pump ac un deg chwech oed yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl y mae modd ei ddiagnosio. Rhwng un a deuddeg oed, mae 1 ym mhob 15 person ifanc yn hunan-niweidio'n fwriadol. *Ffynhonnell: - Ein Hiechyd, Ein Dyfodol, Cynllun Tymor Canolig Integredig Interim Hywel Dda 2016/17 i 2018/19 (tudalen 56)*

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant ar draws Sir Gaerfyrddin: yn bwyta'n iach, yn gorfforol egnïol, ac yn cadw'n iach yn feddyliol.
- Byddwn yn mynd i'r afael ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn eu hadolygiad o'r Amcan Llesiant hwn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae angen i ni fesur gweithgarwch drwy ysgolion.

## Ein camau i wella hyn


Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

A. Byddwn yn cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd **gweithgarwch corfforol** sydd ar gael i blant, ac yn targedu'r rheiny sy'n wynebu risg uwch o anweithgarwch.
B. Byddwn yn **mynd i'r afael ag iechyd meddwl** gan gynnwys profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
C. Byddwn yn **hyrwyddo bwyta'n iach**, gan gynnwys trwy brydau ysgol, y *cynllun Ysgolion Iach* a'r *Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol.*
D. Byddwn yn **cynyddu ymwybyddiaeth** o ffyrdd iach o fyw drwy'r cynllun Ysgolion Iach.
E. Byddwn yn parhau i ddatblygu, hyrwyddo a gweithredu **Rhaglen Dechrau'n Deg.**
F. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar.
G. Byddwn yn datblygu strategaeth a chynllun cyflawni amlasiantaethol i ymateb i effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

# Amcan Llesiant 3
# **Dechrau'n Dda -** Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniadau a deilliannau'r holl ddysgwyr




## Pam y mae hyn yn bwysig?

- Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015)
- Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru 'Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol.'

## Pam y dylem boeni am hyn?

- Ar hyn o bryd mae bwlch cenedlaethol (gan gynnwys yn Sir Gaerfyrddin) rhwng perfformiad disgyblion sy'n agored i niwed gan gymwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn gymwys. Mae'r agwedd hon ar ein perfformiad a'n cyflawniad ar ddiwedd y cyfnod allweddol yn dal yn her ac achos gofid i ni.
- Mae gennym nifer o ysgolion sydd wedi nodi meysydd allweddol i'w gwella drwy gyfrwng eu prosesau hunanwerthuso blynyddol.
- Mae deilliannau gweithgareddau cymharu rhyngwladol yn parhau i ddangos bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU.
- Mae Adroddiadau'r OECD sy'n monitro rhaglen adolygu'r cwricwlwm Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er bod cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni, fod agweddau y mae angen mynd i'r afael â nhw mewn meysydd penodol

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni sicrhau bod holl blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin yn cael y cyfleoedd gorau posibl i astudio, hyfforddi, ac ennill cyflogaeth werth chweil yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.
- Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddysgwyr agored i niwed gan gynnwys y rheiny ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr holl raglenni dysgu.
- Byddwn yn parhau i wella'r cynnydd, y llesiant a'r deilliannau ymhellach ar gyfer pob dysgwr, gan roi pwyslais ar y sawl sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim ac ar ddysgwyr agored i niwed - gweler hefyd *Amcan Llesiant 4 Trechu Tlodi*.

## Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A.** Byddwn yn sicrhau y bydd pwyslais di-baid **ar wella cynnydd, llesiant a deilliannau disgyblion** yn achos pob plentyn a pherson ifanc ar draws pob cyfnod dysgu (gan ganolbwyntio ar ddysgwyr agored i niwed a dysgwyr sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim) yn unol â gweledigaeth a nodau *'Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth Genedlaethol.'*

**B.** Byddwn yn parhau i **fynd i'r afael â phresenoldeb isel mewn ysgolion** a llesiant dysgwyr.

**C.** Byddwn yn darparu **ysgol ragorol yn y lle cywir.**

**D.** Byddwn yn parhau i **ddatblygu'r gweithlu a chynllunio olyniaeth.**

**E.** Byddwn yn parhau i **ddatblygu'r Gymraeg yn ein gwasanaethau i gyd**, a thrwy hynny'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn hyderus ddwyieithog.

**F.** Fel rhan o ddatblygiad Cwricwlwm Sir Gaerfyrddin, byddwn yn canolbwyntio ar ofynion sgiliau a chyflogadwyedd newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur a'r rhai sydd ynddi eisoes er mwyn sicrhau bod gofynion lleol a rhanbarthol yn cael eu bodloni.

**G.** Byddwn yn gweithredu'r ***Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*** i gefnogi'r dysgwyr agored i niwed.

**H.** Byddwn yn sicrhau parhad o ran cynllunio a chyflawni ar gyfer ***prosiectau a ariennir yn allanol.***




**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Glynog Davies**

# Byw'n Dda



# Amcan Llesiant 4

## Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau.
- Gall tlodi fod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Yn ôl y diffiniad, gellir dweud bod 33.8% (27,691) o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn **byw mewn tlodi,** y 13eg uchaf yng Nghymru (Cyfartaledd Cymru yw 32.9%). *Diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi yw pan fo "incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain". Mae hyn yn golygu aelwyd lle mae'r incwm yn* ***llai na £19,967*** *y flwyddyn (2020 - 60% o £33,278).*
- Mae gennym Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol statudol newydd i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Mae'n bosibl bod Pandemig COVID-19 wedi effeithio'n fwy sylweddol ar y cymunedau mwyaf difreintiedig.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu ein sir a datblygu cynllun â ffocws i ymateb yn unol â hynny. Bydd angen i ni edrych ar hyn yn ei gyfanrwydd ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'i bartneriaid, gan ganolbwyntio ar ardaloedd daearyddol allweddol (tebyg i'r rhaglen waith bresennol yn Tyisha) a grwpiau poblogaeth sy'n wynebu anfanteision penodol. (Gweler hefyd Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen)
- Mae angen inni ***atal tlodi*** – Mae cydberthynas gref rhwng cael eich geni'n dlawd a wynebu oes o dlodi ac mae modd atal llawer o'r ffactorau sy'n sbarduno tlodi yn ystod plentyndod ac yn ddiweddarach mewn bywyd os cânt eu nodi ac os eir i'r afael â nhw yn amserol. Felly gall darparu ymyriadau cynnar, cyfannol a dargedwyd helpu i leihau'r tebygolrwydd o dlodi yn ein cymunedau.
- Mae angen i ni ***helpu pobl i gael gwaith*** – gwaith yw un o'r ffyrdd mwyaf sylfaenol ac effeithiol o drechu tlodi yn ei holl ffurfiau. Mae gwaith yn darparu incwm a chyfleoedd ar gyfer gwell iechyd a llesiant.
- Mae angen i ni ***wella bywydau pobl sy'n byw mewn tlodi*** drwy gefnogi'r rheiny sy'n dlawd a gwella mynediad i gymorth ar gyfer cynnal safonau byw sylfaenol (gan gynnwys *trafnidiaeth* a *mynediad digidol*).

### Ein camau i wella hyn


Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A.** Byddwn yn cynnal adolygiad sylfaenol o'n hymagwedd at Drechu Tlodi ac yn paratoi cynllun gweithredu trawsadrannol ar gyfer y Cyngor, i ymateb i faterion allweddol sy'n ymwneud â thlodi, tlodi gwledig a thlodi plant. Byddwn yn trafod hyn ymhellach gyda rhanddeiliaid perthnasol ac aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

**B.** Bydd ein gwasanaethau addysg a phlant yn gweithio i ***atal tlodi*** drwy ddarparu rhaglenni ymyrraeth gynnar allweddol megis Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu, ac i sicrhau bod llythrennedd ariannol ar y cwricwlwm ysgol. Yn ogystal bydd gwasanaethau megis tai yn cymryd ymagwedd fwy rhagweithiol, ataliol at fynd i'r afael â'r hyn sy'n sbarduno tlodi er mwyn atal materion megis digartrefedd a thlodi tanwydd rhag gwaethygu.

**C.** Byddwn yn ***helpu pobl i gael gwaith*** drwy feithrin eu hyder a'u sgiliau drwy'r rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, ac yn targedu cymorth i'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur e.e. rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET). Byddwn yn parhau i ymestyn model Hwb fel siop un stop i gael cyngor a chymorth am gyflogaeth.


**D.** Byddwn yn ***gwella bywydau'r rhai sy'n byw mewn tlodi*** drwy hyrwyddo a chefnogi gwell llythrennedd ariannol drwy wasanaethau fel safonau masnach a budd-daliadau tai. Byddwn hefyd yn cyflwyno mentrau i gefnogi grwpiau allweddol sy'n agored i niwed gan gynnwys Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf a'r Apêl Blwch Teganau a Hamper ***(Tlodi Gwledig** -gweler hefyd Amcan Llesiant 5c)*



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cyng. Cefin Campbell**

# Amcan Llesiant 5
## Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Gan fod darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
- Mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Ym mis Mawrth 2020, o blith gweithlu Sir Gaerfyrddin o 71.5%, roedd 60.7% mewn swyddi yn y maes proffesiynol/technegol/crefftau medrus – tipyn *is* na chyfartaledd Cymru o 63.8%, tra bo 39.2% mewn swyddi yn y maes gofal/hamdden/gofal cwsmeriaid/gweithredu peiriannau – tipyn *uwch* na chyfartaledd Cymru o 35.8%.
- Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â bwlch Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) sy'n lledaenu rhwng GYG y DU a GYG Cymru;
  Mae'r cyfanswm GYG yn Sir Gaerfyrddin yn 4.8% o gyfanswm GYG Cymru, sy'n gyfran gymharol uchel. Fodd bynnag, mae'r GYG fesul swydd yn isel (£44,833), sef 18fed allan o 22 awdurdod, sy'n awgrymu cynhyrchiant isel. *GYG yw mesuriad o werth y cyflogau a'r elw o nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn yr ardal.*
- Mae COVID-19 wedi effeithio'n wael ar economi Sir Gaerfyrddin yn 2020, ac mae'r effaith ar gyflogaeth yn debygol o waethygu yn 2021. Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynllun adfer busnesau a'r economi a fydd yn galluogi'r awdurdod a'n partneriaid allweddol i gydlynu a thargedu'r adnoddau fydd ar gael er mwyn cyfyngu ar y dirywiad economaidd tebygol ac er mwyn ysgogi'r galw a hyder yn ystod yr adferiad, gan sicrhau y gall economi Sir Gaerfyrddin adfer cyn gynted â phosibl er mwyn dod yn un sy'n fwy cynhyrchiol, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, ac yn un sydd â chymunedau iachach a mwy cynaliadwy.
- Rhaid i ni hefyd gryfhau'r economi seiliol gan roi pwyslais penodol ar ddatblygu egwyddor gaffael flaengar a helpu busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol ac i allu talu cyflogau uwch.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni greu economi hynod wybodus a chreadigol trwy fwyhau lleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol, a hynny drwy greu swyddi a darparu prentisiaethau o safon, cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith, er mwyn sicrhau bod y gweithlu bob amser yn gymwys ac yn meddu ar y sgiliau priodol er mwyn wynebu'r dyfodol.
- Mae angen i ni ddatblygu statws Sir Gaerfyrddin yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe (Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot) a sicrhau ei bod yn sir hyderus, uchelgeisiol â chysylltiadau.
- Mae angen i ni ddal ati i fuddsoddi yn ein seilwaith gwledig lleol, gan gynnwys trafnidiaeth er mwyn denu busnesau, twristiaeth/hamdden i'r sir er mwyn hyrwyddo gweithgarwch a thwf economaidd trwy greu gwell cysylltiadau a diwydiant twristiaeth cryf (gweler Amcan Llesiant 13 *Gwella Seilwaith a Chysylltedd y Priffyrdd a Thrafnidiaeth)*
- Mae angen inni barhau i fuddsoddi yn ein 3 prif dref sydd i'w hadfywio'n strategol, yn y 10 tref farchnad wledig, ac mewn safleoedd cyflogaeth strategol, ynghyd â pharhau i gefnogi twf busnesau.
- Mae angen inni gefnogi *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol: Cynllun Gweithredu Economaidd* gan Lywodraeth Cymru:
- Monitro effaith Brexit ar economi Sir Gaerfyrddin, fel y gallwn liniaru unrhyw broblemau a manteisio ar bob cyfle a allai godi
- Mae angen inni ymdrin â'r materion sy'n wynebu cymunedau gwledig fel y nodwyd yn yr adroddiad *Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen*
- Byddwn yn cefnogi'r busnesau bob dydd hynny sydd o'n cwmpas ym mhob man ac sy'n sylfaen i'n heconomi.
- Byddwn yn ceisio cefnogi a gwella ein busnesau fel rhan o'n cynllun adfer COVID-19, drwy gryfhau cadwyni caffael a chyflenwi lleol, cefnogi busnesau i arallgyfeirio, uwchsgilio a datblygu safleoedd addas i'r diben er mwyn i fusnesau dyfu a ffynnu.

## Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

- **A.** Yn rhanbarthol, trwy gydlynu a chyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe, ac, yn benodol, prosiect Pentre Awel yn Sir Gaerfyrddin
- **B.** Yn lleol, trwy gyflawni 6 Chynllun Ardal y Strategaeth Drawsnewidiol gan dargedu ardaloedd trefol, arfordirol a gwledig Sir Gaerfyrddin
- **C.** Datblygu economi wledig Sir Gaerfyrddin yn unol â Gweledigaeth Wledig Cymru a Chynllun Gweithredu Gwledig y Cyngor. Bydd ffocws penodol ar y Fenter 10 Tref
- **D.** Cryfhau'r economi seiliol a chydnerthu cymunedol Bydd pwyslais penodol ar ddatblygu egwyddor gaffael flaengar a helpu busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol ac i allu talu cyflogau uwch
- **E.** Drwy ddatblygu dysgu, sgiliau, cyflogadwyedd ac annog ysbryd o entrepreneuriaeth ledled y sir i gefnogi busnesau newydd yn y sir (Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol)
- **F.** Drwy sicrhau cynlluniau clir ar gyfer cefnogi busnesau er mwyn cefnogi unrhyw oblygiadau yn sgil Brexit
- **G.** Drwy gefnogi twf economaidd lleol a digidol
- **H.** Parhau â threfn bresennol y Cyngor o recriwtio graddedigion a phrentisiaid.




**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Emlyn Dole (Arweinydd)**



# Amcan Llesiant 6
## Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn hybu **iechyd a llesiant,** gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Mae cartrefi fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i **Bobl a'r Amgylchedd -** bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr. Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tlodi tanwydd yn ein cymunedau.
- Mae'n dda i'r **Strwythur Cymdeithasol** - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol. Mae hyn yn wir yn achos ardaloedd gwledig a threfol.
- Mae'n dda i'r **Economi** - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad i'w gweithlu yn hawdd. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Dywedodd pobl wrthym yn ystod ein hymgynghoriad ar dai fforddiadwy yn 2015 bod angen i ni:
  - Targedu cymorth lle mae ei angen fwyaf, mewn ardaloedd trefol a gwledig, trwy ddarparu tai mwy fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu.
  - Bod yn fwy hyblyg – boed trwy sicrhau bod tai adfeiliedig yn cael eu defnyddio unwaith eto, prynu tai presennol neu adeiladu rhai newydd.
  - Gwneud beth bynnag sydd ei angen trwy ddatblygu ffyrdd arloesol a chreadigol o ddarparu rhagor o dai.
  - Defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau posibl i sicrhau cynifer o dai newydd â phosibl.
  - Defnyddio arbenigedd, sgiliau ac adnoddau'r rhai sy'n gweithio gyda ni.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen inni ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol i ddiwallu anghenion y preswylwyr yn Sir Gaerfyrddin.
- Mae angen i ni adeiladu tai cyngor newydd ledled y sir.
- Mae angen i ni weithio gyda landlordiaid preifat i'w hannog i osod eu heiddo am bris fforddiadwy, ac mae angen i ni sicrhau bod rhagor o dai o'r sector preifat yn cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol '*Gosod Syml'.*
- Mae angen i ni weithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai yn Sir Gaerfyrddin er mwyn sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy newydd.
- Mae angen i ni weithio gyda pherchenogion eiddo i sicrhau bod tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto.
- Mae angen i ni brynu cartrefi o'r sector preifat a chynyddu stoc Tai Cymdeithasol y Cyngor.
- Mae angen i ni sicrhau y codir cynifer o dai fforddiadwy â phosibl trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr o'r system gynllunio.
- Mae angen i ni fwyhau'r holl gyfleoedd cyllido i'r Cyngor ac i Gymdeithasau Tai.

### Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth


A. Byddwn yn darparu'r uchod i gyd drwy ein **Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy** a rhaglen adeiladu newydd y Cyngor. Bydd ein cynlluniau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu yn cael effaith enfawr ar iechyd a llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y Sir. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau bod cartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn cynyddu dewis a darparu'r math cywir o gartref yn yr ardaloedd cywir.



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Linda Evans**

# Amcan Llesiant 7
## Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- Yr her yw atal salwch.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- Mae llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.
- Chwarae rhan yn darparu gwasanaethau hygyrch, cynhwysol, cyffrous a chynaliadwy sy'n hyrwyddo a hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae bwlch sylweddol rhwng disgwyliad oes a <u>disgwyliad oes iach</u>. Yn Sir Gaerfyrddin:
  - Y disgwyliad oes i ddynion yw 77.8 o flynyddoedd (2016-18) o gymharu â <u>disgwyliad oes iach</u> o 65 o flynyddoedd (2010-14)
  - Y disgwyliad oes i fenywod yw 82.3 o flynyddoedd (2016-18) o gymharu â <u>disgwyliad oes iach</u> o 66 o flynyddoedd (2010-14)
  - Mae'r disgwyliad oes iach i ddynion a menywod yn is na chyfartaledd Cymru sef 65.3 a 66.7 o flynyddoedd.
- Mae 16.2% o oedolion yn dal i ysmygu yn Sir Gaerfyrddin ac mae 63.6% o oedolion dros bwysau neu'n ordew (Cyfartaledd Cymru yw 59.9%) Arolwg Iechyd Cymru 2018/19 a 2019/20
- Mae atgyfeiriadau i wasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi cynyddu yn ystod pandemig COVID-19 ac rydym yn gweld cynnydd mewn materion cysylltiedig fel Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol.
- Mae cydafiachedd rhwng iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau hefyd yn fater sy'n peri pryder.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ar draws Sir Gaerfyrddin:
  - Yn bwyta ac yn anadlu'n iach
  - Yn gorfforol egnïol, ac
  - Yn iach yn feddyliol.

  Mae angen i ni waredu anghydraddoldebau o ran cyfleoedd i bobl fynd i'r afael â'r meysydd hyn

### Ein camau i wella hyn


Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

A. **Yn bwyta ac yn anadlu'n iach**: Byddwn yn darparu opsiynau bwyd a diod iach yn ein cyfleusterau Diwylliant, Hamdden a Hamdden Awyr Agored, tra'n sicrhau bod mwy a mwy o'r gwasanaethau hyn ar gael ar-lein hefyd. Byddwn yn sicrhau bod ein cyfleusterau hamdden awyr agored h.y. Parciau Gwledig, mannau agored, a rhwydweithiau Hawliau Tramwy yn cael eu cynnal a bod pawb yn gallu eu defnyddio'n ddiogel a'u mwynhau.

B. **Gweithgaredd Corfforol:** Byddwn yn parhau i fuddsoddi ym mhentref llesiant newydd sbon danlli Pentre Awel yn Llanelli; gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r sectorau gwirfoddol ac iechyd i gael "mwy o bobl yn fwy egnïol yn amlach"; a galluogi cyflogwyr i gefnogi mentrau Iechyd yn y Gweithle.

C. **Iechyd Meddwl:** Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ym maes iechyd a'r trydydd sector i drawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac i ymateb i effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant ein poblogaeth yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn cydweithio i wella mynediad at wasanaethau gwybodaeth, cyngor, ataliol ac argyfwng. Ein nod yw sicrhau bod pobl ar eu hennill yn sgil manteision iechyd cadarnhaol cymryd ysbrydoliaeth o'n casgliadau diwylliannol er mwyn hyrwyddo creadigrwydd, ymwybyddiaeth ofalgar a hunanhyder.


D. **Camddefnyddio Sylweddau:** Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gamddefnyddio Sylweddau a datblygu amrywiaeth o ymyriadau cydweithredol i wella canlyniadau yn y maes hwn.



**Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**

# Amcan Llesiant 8
## Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae diogelwch a theimlad o berthyn yn bwysig i lesiant personol ac mae rhagor o bobl bellach yn gwerthfawrogi pwysigrwydd caredigrwydd a bod yn rhan o gymuned.
- Mae gan gyrff cyhoeddus rwymedigaethau clir i greu a chefnogi cymunedau cydlynus yng Nghymru. Mae Cymunedau Cydlynus yn un o'r Nodau Cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cymuned gydlynus yw un lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn rhannu perthnasoedd cadarnhaol, yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth, ac yn parchu ei gilydd a rhannu'r un gwerthoedd.
- Cydnerthu Cymunedol - Mae Cydnerthu Cymunedol hefyd yn hanfodol er mwyn galluogi cymunedau i ymateb i, gwrthsefyll, ac adfer sefyllfaoedd andwyol. Mae argyfwng COVID-19 wedi dangos yr hyn y gellir ei gyflawni pan fydd cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Dim ond hanner (51.5%) trigolion Sir Gaerfyrddin sy'n teimlo eu bod yn byw mewn cymunedau cydlynus, lle mae pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth, lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda, a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol. Bum mlynedd yn ôl, y ffigur oedd 73% a chawsom y canlyniad 5ed gorau yng Nghymru, ond erbyn hyn rydym yn y pedwerydd safle ar ddeg o blith y 22 awdurdod lleol (Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2018/19).
- Mae teimlo'n ddiogel gartref ac yn y gymuned leol yn effeithio ar ymdeimlad pawb o lesiant. Yn benodol, mae effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant ein poblogaeth yn sylweddol.

### Beth sydd angen i ni ei wneud? Gweler Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Mai 2020 – Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Mae angen i ni barhau i gynyddu cydlyniant cymunedol ac i gefnogi a grymuso cymunedau i fynd i'r afael â'u diogelwch, llesiant cyffredinol, a llesiant y rheiny yn y gymuned.
- Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau ymateb amlasiantaethol i iechyd meddwl a llesiant.
- Mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gwybodaeth, cyngor, mynediad a chymorth rhagweithiol yn deg i bawb.
- Mae angen i ni weithio gyda phartneriaid i helpu cymunedau i deimlo'n fwy diogel. Mae hyn yn cynnwys diogelwch ar y ffyrdd, diogelu'r cyhoedd, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig.

### Ein camau i wella hyn — Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A.** Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

**B.** I sicrhau mwy o gydlyniant cymunedol byddwn yn:
- Cynyddu dealltwriaeth o'n cymunedau drwy ymgysylltu a chyfathrebu materion allweddol
- Sicrhau bod unigolion y mae eu diogelwch mewn perygl yn deall y cymorth sydd ar gael
- Annog cymunedau i wella eu hamgylchiadau
- Cefnogi diwylliant o oddefgarwch a chynyddu ymwybyddiaeth o brofiadau cymunedau lleiafrifol

**C.** Byddwn yn annog cydnerthedd ac yn datblygu strategaeth ymyrraeth gynnar a chydnerthedd cymunedol i ymateb i effaith COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant ein poblogaeth.

**D.** Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i helpu ein trigolion i deimlo'n ddiogel, gan adeiladu ar y gwaith partneriaeth ac adfywio sy'n digwydd yn Tyisha.




**Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cyng. Cefin Campbell**

# Heneiddio'n Dda



# Amcan Llesiant 9

## Heneiddio'n Dda - Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfran uchel o drigolion dros 65 oed sy'n rhan hanfodol a bywiog o'r gymuned. Rydym am i'r sir fod yn lle i heneiddio'n dda.
- Mae ymgyngoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i bobl hŷn yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
  **'Cael eich parchu fel person hŷn, heb gael eich ystyried yn faich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol leol'**
- Dengys ymchwil fod cael pobl hŷn i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u parchu ac i gyfrannu'n gymdeithasol, yn ffactor hanfodol o ran heneiddio'n iach.
- Mae pobl hŷn yn cyfrannu at yr economi yn Sir Gaerfyrddin drwy ofalu am eu hwyrion a'u hwyresau neu aelodau eraill o'r teulu.
- Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.
- Mae'r Cyngor wedi penderfynu gwneud Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n cefnogi pobl â dementia, tebyg i Raglen Gymunedol Cefnogi Pobl â Dementia y Gymdeithas Alzheimer.
- Effaith COVID-19 ar ein cartrefi gofal

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae rhagamcaniadau cyfredol yn awgrymu bod poblogaeth pobl dros 65 sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn tyfu ac erbyn 2030 bydd yn cynyddu 60%. Mae cynnydd sylweddol wedi bod, ac yn parhau i fod, yn y 'bobl hŷn hynaf' a chafwyd y cynnydd mwyaf yn y grŵp oedran dros 85 oed: twf rhagweladwy o 116%.
- Yn ystadegol mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu bywydau, gyda 55% o'r boblogaeth dros 65 oed yn dweud bod ganddynt anabledd neu salwch hirdymor. Yn gyffredinol mae'r galw am wasanaethau ysbyty a chymunedol gan y rheiny sy'n 75 oed a hŷn dair gwaith yn fwy na chan y rheiny sydd rhwng 30 a 40 oed.
- Er bod pobl Sir Gâr yn byw'n hwy, nid oes tuedd debyg o ran bod yn iach am fwy o flynyddoedd. Diffinnir hyn fel disgwyliad oes iach heb anabledd ac mae'n tyfu'n arafach na disgwyliad oes. Yn syml, mae hyn yn golygu bod pobl yn byw'n hwy gyda salwch ac anableddau. I ddynion yn yr ardal, 77.4 yw'r disgwyliad oes, a 59.4 yw'r oed a amcangyfrifir ar gyfer byw heb anabledd, a 64 ar gyfer bywyd iach. Ar gyfer menywod, 82 yw'r oedran, a 61.2 ar gyfer byw heb anabledd a 65.7 ar gyfer bywydau iach.
- Mae'n hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.
- Mae pobl hŷn yn ased sylweddol i Gymru, ac yn werth mwy nag £1 biliwn i economi Cymru yn flynyddol. Mae'n rhaid i ni fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau sydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar gostau darparu gwasanaethau i bobl hŷn, yn ystyried cost peidio â buddsoddi mewn pobl hŷn.
- Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd pobl hŷn wrthym eu bod am gymaint o gefnogaeth â phosibl i'w helpu i wneud y pethau maent yn eu mwynhau ac i ymdopi o ddydd i ddydd.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae cyflwyno canolfannau brechu yn ffordd o ddiweddu'r pandemig COVID-19.
- Mae angen i ni barhau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel iechyd poblogaeth i fynd i'r afael â'r anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig ag aml-gyflyrau a bregusrwydd yn sgil oedran.
- Mae angen i ni weithio gydag unigolion a chymunedau ynghyd â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a hyrwyddo Cymunedau o blaid pobl hŷn yn Sir Gaerfyrddin ar draws meysydd cyfranogiad dinesig, cyfathrebu a gwybodaeth, cyfranogiad cymdeithasol, mannau awyr agored ac adeiladau, cludiant, parch a chynhwysiant cymdeithasol, tai a chymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd.

- Mae angen ymagwedd gydgysylltiedig arnom ar draws holl adrannau'r Cyngor i gefnogi byw'n annibynnol a helpu pobl hŷn i fyw yn eu cymunedau. Sicrhau bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i effaith yr holl newidiadau i wasanaethau ar bobl hŷn.
- Mae angen i ni gynnwys pobl hŷn sydd yn aml yn *'arbenigwyr trwy brofiad'* ac sy'n gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen arnynt i gadw eu hannibyniaeth ac i fod yn rhan o'u cymunedau.
- Mae angen i ni weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyrraedd targedau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru i'w cynnwys yng *Nghynllun Llesiant* y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae angen i ni ystyried ymchwil a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn 'Gadael neb ar ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn' ac ymateb i strategaeth Llywodraeth Cymru 'Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn' wrth i'r pandemig gilio.
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar ymagweddau seiliedig ar ganlyniadau i grynhoi'r newidiadau a'r gwelliannau a welir ym mywyd unigolyn - mae angen i ni greu gwasanaethau gan roi pwyslais ar y canlyniadau y mae ar bobl hŷn eu heisiau.

## Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: '*Cymru Iachach'* yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad hwnnw. Mae'r adroddiad yn mabwysiadu*'Nod Pedwarplyg'*. Maent i weithio'n barhaus tuag at:

**A.** Gwell iechyd a llesiant ymysg y boblogaeth;
**B.** Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o well ansawdd ac sy'n fwy hygyrch;
**C.** Iechyd a gofal cymdeithasol gwerth uwch; a
**D.** Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy sydd â chymhelliant.

Mewn ymateb, rydym wedi datblygu ein hymagwedd mewn partneriaeth â darparu *'Sir Gaerfyrddin Iachach',* ac wrth wneud hyn rydym wedi edrych ar sut y byddwn yn gwella canlyniadau i bobl hŷn yn y Sir. Trwy wneud hyn, bydd y Cyngor hefyd yn cymryd i ystyriaeth blaenoriaethau'r *Comisiynydd Pobl Hŷn, Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio: Cymru o blaid pobl hŷn* Llywodraeth Cymru, a blaenoriaethau o blaid pobl hŷn *Sefydliad Iechyd y Byd* i'w gweithredu.




**Yr Aelodau Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd Jane Tremlett a'r**
**Cynghorydd Linda Evans**



# Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus



# Amcan Llesiant 10
## Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus *i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – *twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy.* Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Mae *gwarchod a gwella bioamrywiaeth* yn hanfodol yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd a gwasanaethau ecosystem allweddol megis bwyd, rheoli llifogydd, llygredd, dŵr ac aer glân.
- Bu i effaith pandemig COVID-19 ddangos y berthynas gref rhwng *llesiant trigolion a'r amgylchedd naturiol o'u hamgylch*, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.
- Rydym wedi datgan *argyfwng hinsawdd* fel Cyngor, a ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi ein Llwybr tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero-net erbyn 2030. Ym mis Gorffennaf 2020, bu i wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru addo sicrhau datgarboneiddio.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae'r amgylchedd yn cyfrannu £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn i economi Cymru, 9% o GDP Cymru ac 1 ym mhob 6 swydd yng Nghymru; gan fod yn fwy pwysig i economi Cymru na'r hyn ydyw yn achos cenhedloedd eraill y DU.
- Mae canlyniadau'r ymgynghoriad blynyddol ynghylch y gyllideb yn dangos mai 'Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol' yw'r Amcan Llesiant ail bwysicaf i ddinasyddion.
- Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, yn ogystal â'n hiechyd a'n llesiant. Bydd y Clefyd Coed Ynn yn arwain at golli llawer iawn o goed.
- Yn sgil pandemig COVID-19, gwelwyd cynnydd o ran gwerthfawrogi manteision mynediad i'r amgylchedd naturiol ac ansawdd aer, a phryderon am dipio anghyfreithlon, taflu sbwriel ac ailgylchu.
- Mae'n debygol y bydd cynnydd yn lefelau'r môr yn cael effaith nid yn unig ar y 6,388 eiddo yn Sir Gaerfyrddin sydd eisoes mewn perygl o lifogydd llanwol a llifogydd yn sgil cynnydd yn lefel afonydd, ond ar eiddo ychwanegol ar hyd ein cymunedau arfordirol ac afonol o ganlyniad i amlder a dwyster stormydd fel Callum a Dennis. Bydd amgylchedd naturiol bioamrywiol yn fwy gwydn yn wyneb newid yn yr hinsawdd, a newidiadau yn lefel y môr.


### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen inni sicrhau ein bod, wrth weithredu ein strategaethau, cynlluniau, prosiectau a rhaglenni ar gyfer datblygu, y ffordd i dwf economaidd a denu mewnfuddsoddiad, yn cyflawni ein dyletswyddau o ran Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ac yn mynd ati i gynnal a gwarchod bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.
- Mae angen i ni gynnal a gwella llecynnau naturiol ac adeiledig er mwyn annog trigolion y sir ac ymwelwyr i fyw'n iach.
- Mae angen i ni gefnogi cydnerthedd ecolegol yn ein cymunedau gwledig a threfol.

### Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth


**A.** Byddwn yn gweithio i wella'r amgylchedd, y fioamrywiaeth a chydnerthedd yr ecosystem ac i gydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac i chwarae ein rôl o ran sicrhau adferiad natur.
**B.** Byddwn yn cynllunio, dylunio ac adeiladu cymunedau a seilwaith cynaliadwy ar gyfer y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor a sicrhau llesiant a chroesawu ysbryd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
**C.** Byddwn yn gweithredu'r Llwybr tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero-net erbyn 2030 ac yn cefnogi Maniffesto Gweithredu 8 pwynt *Global Goalkeepers* Sir Gaerfyrddin.
**D.** Byddwn yn lliniaru effeithiau llifogydd a'r difrod a achosir gan lefelau'r môr yn codi a stormydd amlach cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol o ran ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig, gan gynnwys eiddo, drwy gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr; byddwn yn mynd i'r afael â'r gwersi a ddysgwyd o stormydd Callum a Dennis. Byddwn yn rheoli asedau ein harfordir yn unol â'r Cynllun Rheoli Traethlin.
**E.** Byddwn yn gweithredu camau o'r strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', er mwyn bod yn genedl sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025 ac yn genedl ddiwastraff erbyn 2050.



Lead Executive Board Members:
Cllr Phillip Hughes, Cllr Cefin Campbell
& Cllr Hazel Evans

# Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

## Pam y mae hyn yn bwysig?




- Mae trafnidiaeth a phriffyrdd yn allweddol o ran cynnal ein cymuned a darparu *'Ffyniant i Bawb'.* Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar y gallu i symud pobl a nwyddau yn ddiogel ac yn effeithlon, gan roi cyfleoedd i bobl gael mynediad i gyflogaeth, addysg, hamdden a siopa.
- *Bod yn unedig a chysylltiedig* yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun *'Symud Cymru Ymlaen'.* Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- Bydd cynnal mynediad i wasanaethau yn rhoi bod i welliannau o ran iechyd a llesiant i bob rhan o'r gymuned e.e. mae hynny'n cynnwys cerdded, beicio, cludiant teithwyr a thrafnidiaeth y ffyrdd.
- Bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.

## Pam y dylem boeni am hyn?

- Ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ail fwyaf yng Nghymru ac mae'n cwmpasu 3,545 cilomedr, sy'n fwy na dwbl cyfartaledd Cymru sef 1,566 cilomedr, gan gwmpasu 16 miliwn metr sgwâr o ffyrdd cerbydau.
- Graddiwyd cyflwr ein ffyrdd yn y 17eg safle o blith 22 ledled Cymru yn 2017/18.
- Nid oes gan 18.8% o bobl fynediad i gar neu fan. Fodd bynnag, mae gan 43.5% o'r aelwydydd un car fesul aelwyd, a allai ddynodi llai o hygyrchedd mewn mannau lle nad oes system trafnidiaeth gyhoeddus dda.
- Dim ond 55% o'r rheiny oedd yn 80+ oed sydd â mynediad i gar neu fan, felly mae trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cymunedol yn bwysig er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cymunedau; gall olygu'r gwahaniaeth rhwng rhywun yn aros yn annibynnol gartref neu'n cael gofal preswyl.
- Mae ansawdd aer yn achos pryder yn Llandeilo, Caerfyrddin a Llanelli. Effaith cyfyngiadau symud COVID-19 ar Ansawdd Aer.

## Beth sydd angen i ni ei wneud? *Adroddiad Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol Mai 2020 - Trafnidiaeth*

- Mae angen inni wella cysylltedd a chefnogi mynediad at wasanaethau.
- Mae angen inni ddatblygu system drafnidiaeth a fydd yn galluogi busnesau i dyfu a ffynnu yn unol â'n huchelgeisiau economaidd fel awdurdod
- Mae angen i ni gynnal buddsoddiad yn ein systemau trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol a hwyluso teithio yn ôl ac ymlaen i ysgolion er mwyn cynnal ein Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Hefyd mae angen i ni fuddsoddi mewn seilwaith i gefnogi teithiau mwy cynaliadwy a Theithio Llesol. Er enghraifft, trwy lwybrau beicio, llwybrau troed, a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae angen i ni barhau i gynnal buddsoddiad yn ein seilwaith priffyrdd presennol er mwyn gwella cysylltedd.
- Mae angen i ni sicrhau bod ein fflyd o gerbydau yn ddiogel, yn fodern ac yn effeithlon, a dylunio ein strategaeth newid cerbydau mewn modd sy'n addasu i newidiadau mewn technoleg.

## Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A.** Byddwn yn datblygu'r seilwaith priffyrdd i gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Adfywio a Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Byddwn yn parhau i ddatblygu priffordd newydd yn Cross Hands ac yn datblygu cynlluniau strategol i gysylltu cymunedau er mwyn hyrwyddo *'Teithio Llesol' a* thwristiaeth.

**B.** Byddwn yn parhau â'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig llwyddiannus megis Bwcabus/LINC a Traws Cymru, yn datblygu Metro ar gyfer De-orllewin Cymru i integreiddio Teithio Llesol, gorsafoedd bws a rheilffordd, ac yn gweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i wella cysylltedd rheilffyrdd ac amserau teithiau i Orllewin Cymru.

**C.** Ein bwriad fydd ailddylunio ein rhwydwaith cludiant ysgol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.

**D.** Byddwn yn parhau i gefnogi trafnidiaeth gymunedol a gwledig (gweler Amcan Llesiant 5, Cam C)


**E.** Byddwn yn cyflawni ein hamcanion a bennwyd gennym yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.

**F.** Byddwn yn parhau i foderneiddio ein fflyd cerbydau i wella effeithlonrwydd a lleihau allyriadau ac yn cefnogi datblygiad seilwaith gwefru cerbydau trydan.



Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cynghorydd Hazel Evans

# Amcan Llesiant 12
## Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru




### Pam y mae hyn yn bwysig?

- Mae Sir Gaerfyrddin yn gadarnle ar gyfer y Gymraeg ac ystyrir bod y sir o bwysigrwydd strategol mawr i ddyfodol yr iaith.
- Mae dwyieithrwydd o fudd i'r economi ac i unigolion drwy fuddion gwybyddol a chymdeithasol.
- Mae'n bwynt gwerthu unigryw. Mae diwydiannau twristiaeth a lletygarwch ledled Ewrop bellach yn sylweddoli pwysigrwydd cynnig profiadau unigryw. Mae cael dwy iaith a synnwyr o hanes a diwylliant Cymru yn golygu bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa gref.
- Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda.

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Yn ôl canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, dywedodd **37.4%** o bobl Sir Gaerfyrddin eu bod yn siarad Cymraeg. *(Ar sail sampl o 12,400 yng Nghymru)*
- Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi cwympo i **43.9%** o gymharu â 50.1% yn 2001.
- Uchelgais Llywodraeth Cymru drwy Cymraeg 2050 - Strategaeth y Gymraeg yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd **miliwn erbyn 2050**.
- Mae dogfen Llywodraeth Cymru Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru yn atgyfnerthu pwysigrwydd diwylliant fel blaenoriaeth.


### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Mae angen i ni sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo cynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn partneriaeth ag arweinwyr ysgol er budd pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin. (*Gweler hefyd Amcan Llesiant 3)*
- Mae angen inni hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau a gweithio gyda phartneriaid megis y Mentrau Iaith, yr Urdd a'r Mudiad Meithrin i wireddu'r weledigaeth a nodwyd yn ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg
- Mae angen i ni hyrwyddo ein hunain fel cyflogwr dwyieithog ac ymchwilio i'r posibiliadau o wneud hynny mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn y Sir, gan ganolbwyntio'n benodol ar ein rhaglen brentisiaethau
- Mae angen inni ddatblygu sgiliau iaith ein staff a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a sicrhau ein bod yn manteisio ar ddatblygiadau technolegol i'r diben hwn
- Mae angen inni sicrhau bod datblygiad economaidd a ffyniant y Gymraeg yn digwydd ochr yn ochr drwy adfywio economïau a chymunedau gwledig
- Mae angen inni gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol
- Mae angen inni sicrhau bod asedau treftadaeth ein sir yn cael eu gwarchod ac ar gael i genedlaethau'r dyfodol.

### Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A.** Byddwn yn gweithredu ac yn monitro **Safonau'r Gymraeg** o dan Fesurau'r Gymraeg 2011.
**B.** Byddwn yn parhau i **ddatblygu'r Gymraeg yn ein holl wasanaethau addysg**, a thrwy hynny'n anelu at sicrhau bod pob plentyn yn hyderus ddwyieithog. Gall disgyblion gyrraedd eu potensial o ran ennill sgiliau i fod yn ddinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, y gweithle a'r tu hwnt/yn fyd-eang.
**C.** Byddwn yn asesu effaith **Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg,** a fydd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn ym mhob cymuned ac yn dechrau diwygio'r strategaeth gyda phartneriaid allweddol
**D.** Byddwn yn hyrwyddo ein **treftadaeth a'n diwylliant Cymreig**
**E.** Byddwn yn parhau i gefnogi ein gwobrau Diwylliannol Blynyddol, tra'n gweithio gyda chymunedau lleol i hyrwyddo'r pentref diwylliant a'r dref ddiwylliant blynyddol.




Yr Aelod Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths

# Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well



# Amcan Llesiant 13
## Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

### Pam y mae hyn yn bwysig?




- Pwrpas cyffredinol *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella Llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud i hyn weithio mae meysydd allweddol o newid corfforaethol yn ofynnol gan y Ddeddf.
- Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni '*mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai*'.
- Mae angen i'r ffordd rydym yn gweithio ganolbwyntio ar y tymor hir, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, cynnwys pobl yn fwy, atal problemau cyn iddynt ddod i'r amlwg a sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd integredig i fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a lleihau dyblygu; un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

### Pam y dylem boeni am hyn?

- Mae pwysau ariannol pellach o ganlyniad i Bandemig COVID-19 a Brexit.
- Mae'r Pandemig wedi dangos pwysigrwydd cysylltedd digidol a ffyrdd newydd o weithio.

### Beth sydd angen i ni ei wneud?

- Bydd ein dull Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) yn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfle i ddysgu gwersi Pandemig COVID-19 ac i adeiladu ar y ffyrdd newydd o weithio oedd yn llwyddiannus.
- Byddwn yn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad.
- Byddwn yn defnyddio'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd i leihau anghydraddoldebau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Byddwn yn buddsoddi mewn adfywio drwy raglen gyfalaf y Cyngor drwy ddatblygu ac adeiladu gofod cyflogaeth i fusnesau a darparu cymorth ariannol i'r sector preifat at ddibenion datblygu.
- Byddwn yn gwneud defnydd gwell o'n hadnoddau a fydd yn helpu i leihau'r effaith ar wasanaethau, yn bennaf drwy wneud defnydd doethach o'n hadeiladau, ein pobl a'n gwariant.
- Mae angen i ni sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn rhan annatod o'n holl Wasanaethau. Cymru sy'n Fwy Cyfartal


### Ein camau i wella hyn

Mae camau i gyflawni'r rhain yn ein Cynlluniau Busnes Adrannol a Gwasanaeth

**A. Drwy drawsnewid, arloesi a newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau.**
Nod ein rhaglen *Trawsnewid i Wneud Cynnydd* (TIC) yw meddwl yn wahanol, gweithredu'n wahanol ac felly cyflawni'n wahanol.

**B. Byddwn yn dilyn 7 Egwyddor Llywodraethu Da** a nodwyd yn Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/ Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE):

**B1. Uniondeb a Gwerthoedd -** *(Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith)*
**B2. Bod yn Agored ac Ymgysylltu** *(Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid)*
**B3. Gwneud Gwahaniaeth** *(Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy)*
**B4. Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym i'w wneud** (*Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig i'r graddau gorau posibl)*
**B5. Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi -** *(Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion)*
**B6.Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid** *(Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref)*
**B7. Tryloywder ac atebolrwydd da** *(arferion da, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol)*



**Yr Aelodau Arweiniol o'r Bwrdd Gweithredol**
**Y Cynghorydd David Jenkins a'r**
**Cynghorydd Mair Stephens**

# ATODIADAU



## Amcan Llesiant - Uno ac ailysgrifennu

***Mae'n rhaid byw bywyd. Gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus.***

| | HEN | | NEWYDD | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Amcan Llesiant 2018-21 | Rhif | Amcan Llesiant 2021-22 | Ffocws penodol ar gyfer 2021/22 |
| Dechrau'n Dda | 1 | Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mewn bywyd. | 1 | Parhau | • Ehangu Dechrau'n Deg dan nawdd rhaglen drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar |
| | 2 | Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw (Gordewdra ymysg Plant) | 2 | Parhau | • Mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl plant – sy'n deillio o bosibl o fesurau'r cyfyngiadau symud |
| | 3 | Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr | 3 | Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad, a deilliannau i'r holl ddysgwyr | • Sicrhau bod dysgwyr yn cael cefnogaeth i ailymgysylltu â dysgu ac adennill unrhyw ddysgu a gollwyd oherwydd COVID<br>• Sicrhau bod y rheiny yn y grŵp arholi yn cael cefnogaeth dda er mwyn iddynt allu dilyn y llwybr maent wedi ei ddewis |
| | 4 | Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol. | | | |
| Byw'n Dda | 5 | Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi | 4 | Parhau | • Trechu Tlodi |
| | 6 | Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir | 5 | Parhau | • Busnesau bach a chanolig a'r economi seiliol<br>• Adfywio gwledig<br>• Pentre Awel |
| | 7 | Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael | 6 | Parhau | • Argyfwng tai lleol - costau cynyddol ac ail gartrefi |
| | 8 | Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra ymysg oedolion) | 7 | Parhau | |
| | 9 | Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel | 8 | Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd, a diogelwch | • Cydlyniant Cymunedol |
| Heneiddio'n Dda | 10 | Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio | 9 | **Cefnogi pobl hŷn er** mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny | • Cymunedau o blaid pobl hŷn |
| | 11 | Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin | | | |
| Mewn Amgylchedd Iach a Diogel | 12 | Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol | 10 | Parhau | • Newid yn yr hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar lifogydd<br>• Carbon Sero-net |
| | 13 | Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth | 11 | Parhau | |
| | 14 | Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant | 12 | Parhau | • Cefnogi'r targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg |
| Llywodraethu Corfforaethol | 15 | Adeiladu Gwell Cyngor<br>Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau | 13 | Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well | • Sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn rhan annatod o holl amcanion y Cyngor |

## Gofynion Statudol

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhwymedigaethau cyfreithiol ar wahân ond cysylltiedig, ac mae gofynion y rhwymedigaethau hyn wedi'u halinio a'u cyfuno'n llwyr yn y Strategaeth Gorfforaethol hon.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella bob blwyddyn. Nid oes yn rhaid iddynt newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.
- Yn y bôn mae ein Hamcanion Gwella yr un fath â'n Hamcanion Llesiant, gan eu bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac anghenion lleol. Rydym yn cymharu perfformiad ein gwasanaeth a'n canlyniadau bodlonrwydd â phob Cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwella lle mae angen i ni wella fwyaf.
- Mae dyletswydd arnom i wella, gan ddarparu'r 'un gwasanaethau neu fwy o wasanaethau, am lai o arian'.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. <u>Yn ôl y gyfraith</u>:-

a) Bod yn <u>rhaid</u> i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw
***'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'***

b) Mae'n <u>rhaid</u> i ni arddangos 5 ffordd o weithio:
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol

c) Mae'n <u>rhaid</u> i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.

Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus mae'n ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n mwyhau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.




## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Bydd y Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd gwella bresennol ar gyfer prif gynghorau a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar 2021-22 o dan delerau'r Ddeddf newydd.

## Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

O 31 Mawrth 2021, bydd y ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau, wrth iddynt wneud penderfyniadau strategol fel 'penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion', ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Ariannu Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae awdurdodau lleol wedi wynebu'r un sefyllfa ariannol dros y degawd diwethaf, sef toriadau sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Golyga hyn fod gennym lai o arian i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau nawr nag yn y gorffennol. Dros y degawd diwethaf rydym wedi gorfod rheoli bwlch o oddeutu £120 miliwn yn y gyllideb, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfeydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliadau. Rydym yn ymdrechu i'r eithaf i reoli'r sefyllfa hon drwy leihau ein gwariant heb fod unrhyw effaith sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i'n cymunedau.

1. **Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella ei brofiadau yn gynnar mew bywyd.**

I gyflawni'r amcan hwn, mae angen i ni sicrhau buddsoddiad priodol yn y blynyddoedd cynnar trwy ein hadnoddau cymunedol megis Canolfannau Plant Integredig a Chanolfannau i Deuluoedd.
Mae'r Grant Plant a Chymunedau yn helpu i wella ac integreiddio'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn rhoi gwell cymorth i deuluoedd agored i niwed a phobl ar draws Cymru. Mae'r grant hwn yn cynnwys grantiau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf sydd wedi cael £5.1m gan Lywodraeth Cymru yn 2021-22. Byddwn ni hefyd yn parhau i fuddsoddi grant cyfalaf y cynnig gofal plant o £3m a roddwyd i ni i ddechrau yn 2019/20, yn ogystal â'r dyfarniad blynyddol o £67k ar gyfer 2021/22 i hwyluso darparu hyd at 30 awr o ofal plant o ansawdd da i blant rhieni sy'n gweithio ledled y sir.

**2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw**

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae'r pwyntiau allweddol uchod hefyd yn berthnasol.
Mae prydau ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn dilyn deddfwriaeth bwyta'n iach, ac mae cyllid craidd blynyddol o £3m ar gyfer hyn. Mae hyn yn cynnwys cost y fenter Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd. Cefnogir gweithgareddau iach ar gyfer pobl ifanc gan gyllidebau rhaglennu cyfleusterau hamdden a datblygiadau chwaraeon presennol, wedi'u hategu gan Grant Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdod Lleol o £465k yr ydym yn ei gael gan Lywodraeth Cymru trwy Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn helpu i dalu am weithgareddau megis Nofio Am Ddim a'r Rhaglen Pobl Ifanc Egnïol.

**3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr**

Er mwyn cyflawni'r amcan allweddol hwn, mae angen cymorth cynhwysfawr ac adnoddau o'n gwasanaeth gyd. Mae Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau rhaglen fanwl a blaengar er mwyn cefnogi gwell cyrhaeddiad i'n holl blant a phobl ifanc. Mae ysgolion yn derbyn £122m o arian dirprwyedig yn ogystal ag oddeutu £19m drwy grantiau Llywodraeth Cymru.

Hefyd, rydym yn gwneud cynnydd o ran ein *Rhaglen Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr 21ain Ganrif* i ddarparu'r ail gyfran o brosiectau blaenoriaeth (Band B), a rhagwelir bydd hyn yn costio £129m gyda 65% yn dod o Lywodraeth Cymru. I sicrhau cymorth a her cynhwysfawr parhaus i'n hysgolion, mae angen rhyw £6.5m arnom i ariannu ein Timau Gwella Ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol a'u darpariaeth bwysig. Mae angen £3.3 miliwn i barhau i ddarparu profiadau dysgu a chyflawni ehangach ac adnoddau megis amgueddfeydd, orielau a gwasanaethau archifau.

Mae gan y Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid rôl arweiniol o ran cyflawni'r gwaith hwn yn yr ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r cyllid craidd blynyddol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn £527k. Mae'r gwasanaeth yn dibynnu ar grantiau allanol blynyddol yn cynnwys Grant Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru (£543k yn 21/22) a Theuluoedd yn Gyntaf (£611k yn 2021/22). Bydd yn hanfodol cael cyllid pellach gan grant Plant a Chymunedau er mwyn cyrraedd y targed llesiant hwn.

Yn ogystal â'r ffynonellau ariannu hyn, mae prosiect rhanbarthol parhaus *Cynnydd* sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc NEET yn y sir yn cael ei ariannu'n rhannol drwy grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gwerth £3.1m gydag arian cyfatebol o £1.3m gan CSC.

## 4. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Mae'n anodd amcangyfrif y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer darparu mentrau i fynd i'r afael â thlodi gan fod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar draws sbectrwm eang o wasanaethau. Ein busnes craidd yw rhywfaint o'r gwaith hwn, er enghraifft cymorth digartrefedd (£1m), ac mae elfennau eraill a dargedir yn cael eu cyllido drwy grantiau megis *Grant Plant a Chymunedau,* ynghyd â *Grant Amddifadedd Disgyblion* (£5.2m yn 2020-21). Yn ogystal, o ganlyniad i natur amrywiol tlodi a'r dylanwadau lawer sy'n gallu arwain at dlodi, mae nifer o wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at drechu tlodi yn anuniongyrchol. I'r gwasanaethau hyn, nid 'nod eithaf' yw trechu tlodi, ond yn hytrach sgil-effaith y gwaith maent yn ei wneud i gefnogi unigolion a chymunedau.

Mae'r prosiect rhanbarthol parhaus *Gweithffyrdd+,* sy'n cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a phobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir, yn cael ei ariannu'n rhannol drwy grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gwerth £3m gydag arian cyfatebol o £0.6m gan CSC. Hefyd mae prosiect rhanbarthol *Pobl Ddi-waith yn y Tymor Byr Gweithffyrdd+,* sy'n cefnogi pobl ddi-waith yn y tymor byr i gael gwaith, yn cael ei ariannu'n rhannol drwy grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gwerth £723k gydag arian cyfatebol o £240k gan CSC. Mae'r prosiect *Cymunedau am Waith*, a ariennir drwy grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) gwerth £1m, yn cefnogi'r rhai 16-24 oed sy'n NEET, yn ogystal â chynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithgar a phobl ddi-waith yn y tymor hir sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

## 5. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Mae gwariant Sir Gaerfyrddin y pen ar ddatblygu economaidd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Bydd ein cynllun adfywio 15 mlynedd yn creu dros 5,000 o swyddi a buddsoddir dros £250 miliwn yn y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cyfraniadau gan bartneriaid sector preifat. Adfywio cymunedau i ysgogi'r economi a chreu swyddi o werth mawr yw prif flaenoriaeth y Cyngor a bydd hyn yn rhan ganolog o gynlluniau adfer economaidd y sir.
Fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, rydym yn arwain ar ddau brosiect o bwys yn Sir Gaerfyrddin:-

• Yr Egin – Mae cam cyntaf y ganolfan ddigidol a chreadigol hon ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi'i gwblhau, ac mae cam dau yn cael ei ddylunio ar hyn o bryd. Gyda chyfanswm cost o £25m (gan gynnwys grant £5m y Fargen Ddinesig; £18.5m o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus drwy'r Brifysgol, asiantaethau cyhoeddus a grantiau'r Llywodraeth; a buddsoddiad o £1.5m gan denantiaid y sector preifat), bydd hyn yn cyfrannu at greu dros 200+ o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.

• Pentre Awel - bydd y prosiect hwn yn cynnwys cyfleusterau iechyd, addysg, ymchwil a busnes newydd ynghyd â chanolfan hamdden a phwll nofio newydd o'r radd flaenaf. Ar safle 83 erw yn Ne Llanelli, Pentre Awel fydd y datblygiad cyntaf o'i fath a'i faint yng Nghymru.
Cyfanswm cost y prosiect fydd £200m (gan gynnwys grant o £40m y Fargen Ddinesig, buddsoddiad o £51m gan y sector cyhoeddus drwy'r Awdurdod a buddsoddiad o £109m gan sefydliadau'r sector preifat), a bydd Pentre Awel yn creu dros 1800 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.

• Yn ogystal, ni yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer prosiectau Seilwaith Digidol a Sgiliau a Thalentau ar draws y rhanbarth. Ynghyd â'r tri Awdurdod Lleol cyfansoddol arall yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe, bydd y prosiectau hyn yn ceisio ysgogi'r economi a chreu swyddi drwy uwchraddio seilwaith digidol trefol a gwella cysylltedd gwledig, yn ogystal ag uwchsgilio a chynyddu cyfleoedd addysgol i'r rhai yn y rhanbarth.

## 6. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Nod ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy gwreiddiol oedd darparu mwy na 1000 o dai rhwng 2016 a 2021, ond rydym eisoes wedi darparu dros 1150 o dai erbyn diwedd 2020. Ein huchelgais ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yw darparu mwy na 900 o dai newydd gyda buddsoddiad o dros £150m, gyda thros 400 yn cael eu darparu yn y 3 blynedd nesaf gyda buddsoddiad o £49m.

## 7. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Bydd yr amcan hwn yn dod â llawer o'r gwaith a wneir gan y gwasanaethau ynghyd, ac mewn rhai achosion mae'n anodd pennu gwariant o dan y pennawd hwn. Fodd bynnag y gwariant cyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf fydd:

- £18.5 miliwn ar ganolfan hamdden newydd yn Llanelli
- £1m ar welliannau i ganolfan hamdden Dyffryn Aman.
- £630k ar fynediad i gefn gwlad gan gynnwys Hawliau Tramwy, Cilffyrdd a gwelliannau i lwybr yr arfordir ym Morfa Bacas.
- £580k ar gyfer llwybr beicio Dyffryn Tywi a £3.8m ar gysylltiadau cerdded a beicio teithio llesol,
- a £486k ar lwybrau diogel mewn cymunedau.

O ran gwariant refeniw ar gyfer 2021/22, byddwn yn buddsoddi:

- £1.575m ar sicrhau bod plant yn cael 60 munud o ymarfer corff 5 gwaith yr wythnos a'r cynllun atgyfeirio cleifion
- £6.363 ar gynnal cyfleusterau hamdden, chwaraeon a nofio
- £4.31m ar lecynnau awyr agored, cefn gwlad a'r parc arfordirol
- I sicrhau llesiant diwylliannol ledled y cyfleusterau, byddwn yn gwario £7.043m ar ddarparu gwasanaethau
- Ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu £42 miliwn a gwasanaethau Iechyd Meddwl £10.5 miliwn a Gwasanaethau Cymorth gan gynnwys Diogelu a Thrafnidiaeth £7.5 miliwn
- I gefnogi'r rhai sy'n anabl yn gorfforol byddwn yn gwario £8.6m a £2.1m ar gyflogaeth â chymorth
- Sicrhau bod Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd ar gael (Diogelwch Bwyd, Ansawdd Aer a Dŵr ac ati). £2.9m
- Darparu Safonau Masnach £1m

## 8. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Pan fyddwn yn gofyn i bobl *pa bethau sydd yn bwysig i chi mewn bywyd?* maent yn dweud wrthym fod eu hanwyliaid, perthnasau, ffrindiau, cymdogion a'u cymuned yn bwysig iddynt. Yn y Gwasanaethau Plant mae ein hystod o wasanaethau cymorth i deuluoedd yn cyfrannu at yr amcan hwn ac mae'n anodd dadansoddi ei gostau ar wahân i gostau rhai o'n hamcanion eraill ynghylch rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a gwella eu profiadau ar ddechrau bywyd. Gwerir bron £24m i gyd ar draws Is-adran y Gwasanaethau Plant.

Mae gwasanaethau i helpu gofalwyr a gwasanaethau cymorth cartref yn helpu pobl i barhau i fyw gartref, gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau – Hefyd gweler Amcan 10

Yn ogystal rydym yn gweithio i sicrhau cydlynu ehangach â'r gymuned trwy ystod o fentrau - Cysylltiad ag Amcan 13

## 9. Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny

O ran gwariant cyfalaf byddwn yn gwario £11.2 miliwn ar grantiau cyfleusterau i bobl anabl dros y 5 mlynedd nesaf. Byddwn hefyd yn cyflawni Prosiect Llesiant newydd Pentre Awel yn Llanelli fel rhan o'n buddsoddiad yn y Fargen Ddinesig.
Byddwn yn gwario bron £68m o'n cyllideb refeniw yn 2021/22 ar Wasanaethau i Bobl Hŷn. Bydd hyn yn cynnwys:

- £4m ar Gomisiynu, £9m ar Gartrefi Preswyl yr Awdurdod Lleol, £27m ar Gartrefi Preswyl y Sector Preifat, a £799k ar ar ofal ychwanegol
- Ar Wasanaethau Gofal Cartref £8.4m Darpariaeth yr ALl a £9.1m ar ddarpariaeth Breifat.
- £1.9m ar wasanaethau tele-ofal a Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor, £2.1m ar alluogi ac £1.8m ar Wasanaethau Dydd a Chymorth Cymunedol

Mae'n anodd amcangyfrif lefel y buddsoddiad yn yr amcan hwn gan ei fod yn berthnasol i amrywiol wasanaethau. Y peth pwysig o ran yr amcan hwn yw sicrhau ein bod, ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, yn meddwl am gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

Yn syml, mae pobl hŷn yn gyfranwyr net i'r economi yn hytrach na buddiolwyr, drwy eu cyfraniadau at y sectorau marchnad cyflogaeth, gwirfoddoli, mentora, a gofalu. Mae'r gwaith y mae gwasanaethau'r Cyngor yn ei wneud i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn lleihau'r angen am ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol drudfawr.

## 10. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

O ran cymryd camau mewn perthynas â'r *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff a Chynllun Rheoli'r Traethlin,* mae'r camau hyn wedi eu cynnwys yn barod yn y cyllidebau perthnasol. Mae cyllideb refeniw is-adran y Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol o £23 miliwn (21/22) yn anelu at gyllido casglu a gwaredu gwastraff sy'n cynnwys mentrau ailgylchu niferus, glanhau strydoedd, gorfodi rheolau amgylcheddol, cynnal a chadw tiroedd a pharciau, gwarchod yr arfordir a gwarchod rhag llifogydd, yn ogystal â chynnal cyfleusterau cyhoeddus gan sicrhau ein bod yn gofalu am yr amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae CSC yn derbyn *grant refeniw Rheoli Gwastraff Cynaliadwy gan* Lywodraeth Cymru (£1.1m yn 2021/22)

## 11. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Mae *Cynllun Trafnidiaeth Lleol* Sir Gaerfyrddin yn pennu ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'r blaenoriaethau'n cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol ac wedi'u pennu yn amcanion Dinas-ranbarth Bae Abertawe.  Mae ein rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol yn cynnwys buddsoddi dros £19m mewn seilwaith priffyrdd, y mae £10m ohono'n dibynnu ar gyllid grant allanol, ac yn cynnwys £254k ar bwyntiau gwefru cerbydau electronig newydd ac £800k ar gyfer goleuadau stryd.

Mae cyllideb refeniw yr is-adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth o £32 miliwn yn cynnwys swm o £8 miliwn ar gyfer seilwaith priffyrdd yn ogystal â chyllid ar gyfer cludiant ysgol a thrafnidiaeth gyhoeddus, cynnal a chadw a gweinyddu meysydd parcio, cynnal a chadw goleuadau cyhoeddus ar gyfer y sir, a datblygu strategaethau trafnidiaeth i gynnal cysylltedd seilwaith priffyrdd Sir Gaerfyrddin.

Bydd cyflwyno'r prosiectau trawsnewid megis y rheiny sydd wedi'u cynnwys yn y Fargen Ddinesig a'r prosiectau trafnidiaeth integredig, gyda chymorth cyllid allanol, yn rhoi cyfle i fuddsoddi yn y seilwaith a'r gwasanaethau trafnidiaeth er mwyn helpu i gludo pobl a nwyddau yn ddiogel.

## 12. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Gellir mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon heb fod angen buddsoddiad mawr ychwanegol. Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni'r amcan hwn drwy'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd gydag Adfywio a Pholisi, Hamdden a Diwylliant, ac Addysg a Gwasanaethau Plant i gynghori ac addysgu cydweithwyr ynghylch sut y gellir gwella rhagor ar ein gwasanaethau presennol a sut y gallwn hyrwyddo diwylliant bywiog a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.

## 13. Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well

Mae mynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon yn cwmpasu'r holl feysydd gwasanaeth ac mae'n ymwneud â buddsoddiad yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fodelau cyflawni sy'n ariannol gynaliadwy - ceir  llawer o enghreifftiau o hyn ar draws gwahanol adrannau, fel cynyddu'r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol lle mae'n bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn well, edrych ar sut bydd covid yn arwain at ffyrdd newydd o weithio, ac o bosibl lleihau costau ystad y Cyngor yn y dyfodol.

Dros gyfnod parhaus o ostyngiadau yn y gyllideb, mae'r Cyngor wedi ceisio mwyhau cyfran yr arbedion rheoli, a thrwy hynny leihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen. Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn cynnwys £9.2 miliwn o gynigion "rheoli", neu dros 80% o gyfanswm y cynigion ar gyfer cwtogi'r gyllideb a gyflwynwyd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella ffyrdd o weithio drwy waith y rhaglen "Trawsnewid i Wneud Cynnydd" (TIC) sy'n cael ei ategu gan y tîm TIC (£227k).

# Datganiadau o Fwriad

## Datganiad Llesiant

Rydym yn croesawu ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Rydym eisoes wedi rhoi sylw i lawer o ofynion y Ddeddf newydd ond yn cydnabod ein bod yn gallu gwneud rhagor.

1. Rydym yn teimlo bod ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni ein Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ymwneud ag agweddau gwahanol ar gwrs bywyd ac yn rhoi sylw i lesiant mewn ffordd systematig.

2. Mae'r Amcanion Llesiant hyn wedi eu dewis gan roi sylw i adborth sylweddol yn sgil ymgynghori a llu o ffynonellau gwybodaeth gwahanol ynghylch angen, data perfformiad ac adborth rheoleiddiol. Wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn cynnwys pob math o bobl sydd â diddordeb yn eu cyflawni.

3. Bydd y camau a gymerwn i gyflawni'r Amcanion Llesiant (ein cynlluniau gweithredu) yn ceisio sicrhau y defnyddir cymaint ag sy'n bosibl ar ddulliau tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol.

4. Mae gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb penodol dros y Ddeddf yn gyffredinol. Hefyd bydd gan bob aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n ddeiliad portffolio gyfrifoldeb dros yr Amcanion Llesiant perthnasol.

5. I sicrhau ein bod yn cymryd y camau gweithredu hyn byddwn yn defnyddio ein dangosfwrdd System Monitro Gwybodaeth am Berfformiad (PIMS), a ddatblygwyd yn fewnol. Caiff pob cynllun gweithredu ei fonitro ac adroddir yn ei gylch yn chwarterol i'r Timau Rheoli Adrannol, y Tîm Rheoli Corfforaethol, a'r Bwrdd Gweithredol. Hefyd adroddir ynghylch cynnydd i'r Pwyllgorau Craffu. Bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol am ei Amcanion Llesiant ac yn diwygio'r amcanion os bydd angen.

6. Caiff cynnwys y cynlluniau gweithredu, er mwyn cyflawni'r Amcanion Llesiant, ei ariannu'n ddigonol ac mae'n rhan annatod o gynlluniau busnes gwasanaeth (gweler manylion ariannol Atodiad 3). I gyflawni'r amcanion hyn bydd gwasanaethau yn 'uno' ac yn cydweithio, yn gweithio gyda phartneriaid, ac yn cynnwys dinasyddion o bob math yn llawn.

7. Mae ein hamcanion yn rhai tymor hir ond bydd ein cynlluniau gweithredu yn cynnwys cerrig milltir a fydd yn galluogi monitro a sicrhau cynnydd.

8. I sicrhau bod modd cyflawni ein Hamcanion Llesiant ac i gyrraedd disgwyliadau'r Ddeddf, byddwn yn addasu trefniadau craffu, cynllunio ariannol, rheoli asedau, asesu risg, a rheoli perfformiad.

9. Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 a gwnaeth argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus y byddwn yn eu hystyried ar gyfer 2021/22 mewn Cynlluniau Busnes Gwasanaeth.

## Sut rydym yn mesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella'r mesurau canlynol.

| Amcanion Llesiant | | Mesurau Llwyddiant |
|---|---|---|
| Dechrau'n Dda | **Amcan Llesiant 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.** | • Plant mewn gofal â 3 lleoliad neu fwy yn y flwyddyn |
| | **Amcan Llesiant 2 - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.** | • Plant sydd dros bwysau neu'n ordew |
| | **Amcan Llesiant 3 - Cefnogi a gwella cynnydd, cyflawniad a deilliannau'r holl ddysgwyr** | • Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio i ddisgyblion<br>• Cyfraddau presenoldeb Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd<br>• Bodlonrwydd ar ysgol gynradd plentyn<br>• Rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 ac 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs) |
| Byw'n Dda | **Amcan Llesiant 4 - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.** | • Bwlch yn y sgôr 9 pwynt cyfartalog wedi'i chapio ar gyfer y rheiny sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys<br>• Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref<br>• Aelwydydd mewn amddifadedd materol<br>• Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi |
| | **Amcan Llesiant 5 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.** | • Ffigurau cyflogaeth<br>• Swyddi a grëwyd gyda Chymorth Adfywio<br>• Cyfartaledd Cyflog wythnosol gros<br>• Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch<br>• Pobl yn fodlon neu'n lled fodlon ar eu swyddi |
| | **Amcan Llesiant 6 – Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.** | • Nifer y tai fforddiadwy yn y Sir |
| | **Amcan Llesiant 7 – Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).** | • Oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn<br>• Oedolion sy'n dweud bod ganddynt salwch hirdymor<br>• Sgôr llesiant meddwl oedolion<br>• Oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach |
| | **Amcan Llesiant 8 - Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthu a diogelwch** | • Pobl sydd ag ymdeimlad o gymuned<br>• Pobl yn teimlo'n ddiogel |

| Amcanion Llesiant | | Mesur llwyddiant allweddol |
|---|---|---|
| Heneiddio'n Dda | **Amcan Llesiant 9 - Cefnogi pobl hŷn er mwyn iddynt heneiddio'n dda a chadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth wneud hynny.** | • Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros i gael gofal cymdeithasol<br>• Pobl yn cytuno bod Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal<br>• Nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl<br>• Pobl sy'n unig |
| Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus | **Amcan Llesiant 10 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol** | • Yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir<br>• Gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio |
| | **Amcan Llesiant 11 - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth.** | • Cyflwr y ffyrdd<br>• Anafusion ar y ffyrdd |
| | **Amcan Llesiant 12 - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.** | • Gallu siarad Cymraeg<br>• Pobl a fu mewn digwyddiadau ym maes y celfyddydau yng Nghymru<br>• Pobl a wnaeth ymweld â lleoedd hanesyddol yng Nghymru<br>• Pobl a wnaeth ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru |
| | **Amcan Llesiant 13 - Llywodraethu a Defnyddio Adnoddau yn well.** | • Taliadau 'Ar-lein Amdani'<br>• Pobl yn cytuno y gallant gyrchu gwybodaeth am yr Awdurdod yn y ffordd y byddent yn ei dymuno.<br>• Pobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu<br>• Pobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhedeg gwasanaethau'r awdurdod lleol<br>• Lefelau absenoldeb salwch y staff<br>• 'Costau cynnal' y sefydliad<br>• Rydym yn gofyn am farn pobl cyn pennu'r gyllideb |

## Mesurau'r Canlyniadau

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo newid mewn ffocws o gynhyrchiant gwasanaethau, i bob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

## Sut mae gwasanaethau yn cydweithio i gyflawni'r Amcanion Llesiant

**Rhag 2020**

| Swyddog Arweiniol | | **✓** | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddog Cefnogi** | | ✓ | AMCAN LLESIANT 1 | AMCAN LLESIANT 2 | AMCAN LLESIANT 3 | AMCAN LLESIANT 4 | AMCAN LLESIANT 5 | AMCAN LLESIANT 6 | AMCAN LLESIANT 7 | AMCAN LLESIANT 8 | AMCAN LLESIANT 9 | AMCAN LLESIANT 10 | AMCAN LLESIANT 11 | AMCAN LLESIANT 12 | AMCAN LLESIANT 13 |
| **Adran Y Prif Weithredwr** | Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | Linda Rees Jones | | | | | | | | | | | | | **✓** |
| | Rheoli Pobl | Paul Thomas | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | **✓** |
| | Adfywio | Jason Jones | | | | ✓ | **✓** | | | | | | ✓ | | **✓** |
| | TGCh a Pholisi Corfforaethol | Noelwyn Daniel | | | ✓ | **✓** | ✓ | | | ✓ | | | | **✓** | **✓** |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | Gwasanaethau Ariannol | Randal Hemingway | | | | | | | | | | | | | **✓** |
| | Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | Helen Pugh | | | | ✓ | | | | | | | | | **✓** |
| **Cymunedau** | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion | Avril Bracey | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| | Cydweithredu Rhanbarthol | Martyn Palfreman | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | | | | |
| | Gwasanaethau Integredig | Alex Williams | | | | | | | ✓ | ✓ | **✓** | | | | |
| | Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | Jonathan Morgan | | | | ✓ | | **✓** | ✓ | ✓ | ✓ | | | | |
| | Hamdden | Ian Jones | | ✓ | | | | | **✓** | | | ✓ | | **✓** | |
| **Addysg a Gwasanaethau Plant** | Addysg a Chynhwysiant | Aneurin Thomas | ✓ | ✓ | **✓** | ✓ | | | | ✓ | | | | | |
| | Cwricwlwm a Llesiant | Aeron Rees | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | |
| | Mynediad i Addysg | Simon Davies | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | | | |
| | Plant | Stefan Smith | **✓** | **✓** | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | | | |
| **Yr Amgylchedd** | Eiddo | Jonathan Fearn | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ |
| | Cynllunio | Noelwyn Daniel | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | **✓** | | | ✓ |
| | Trafnidiaeth a Phriffyrdd | Stephen Pilliner | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | **✓** | | ✓ |
| | Gwastraff a'r Amgylchedd | Ainsley Williams | | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ |